# DIWEDDARIAD HAF 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



LLYW.CYMRU

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**
03000 200 301

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0345 050 3456

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Samaritans yng Nghymru**
116 123

**Llinell Gymorth TB**
0300 303 8268

**Tir Dewi**
0800 121 4722

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 03 MAW – 21 TACH | Grant Creu Coetir |
| 21 GORFF – 30 MED | Grantiau Bach – Creu Coetir |
| 11 AWS – 19 MED | Grantiau Bach – Amgylchedd (carbon) |

Gallwch nawr ein dilyn am newyddion a diweddariadau rheolaidd ar bynciau sy'n gysylltiedig â materion gwledig ar ein tudalen Facebook newydd sbon.

Chwiliwch am **Cymru Wledig/Rural Wales** ar Facebook neu ewch i: **facebook.com/cymruwledig**.

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Haf yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (15 Gorffennaf 2025). Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: LLYW.CYMRU.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
WG52432
ISBN digidol: 978-1-80633-142-0
ISBN argraffu: 978-1-80633-140-6

# CYNNWYS




04
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

05
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

07
CYFRADDAU ISAFSWM CYFLOG AMAETHYDDOL NEWYDD AR GYFER 2025–2026 YNG NGHYMRU

08
CREU COETIR

09
YMGYNGHORIAD AR DREFN O ADNABOD GWARTHEG YN ELECTRONIG YNG NHYMRU

10
EID CYMRU

12
ACHOSION O GLEFYDAU HYSBYSEDIG YN EWROP

13
DEWCH I'N GWELD NI YN Y SIOEAU

14
RHEOLI LLIFOGYDD YN NATURIOL

15
STRATEGAETH BWYD CYMUNEDOL

16
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERMYDD CYMRU

17
GWASANAETH CYSWLLT FFERM

18
CYSWLLT FFERMIO

20
BLE GALLA I GAEL HELP?

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i gynllunio, mewn cydweithrediad, i'ch helpu i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, wrth fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng hinsawdd a natur.

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer paratoi; gan gynnwys y Camau Gweithredu Cyffredinol, meini prawf cymhwysedd, Gofynion y Cynllun a manylion taliadau.

Mae'n rhestru'r Camau Gweithredu Dewisol a Chydweithredol yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno yn 2026 i gefnogi'r ffermwyr hynny sydd am adeiladu ar eu Camau Gweithredu Cyffredinol a mynd ymhellach.

Mae'n cynnwys ein cynlluniau ar gyfer dileu'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn raddol dros y Cyfnod Pontio sy'n dechrau'r flwyddyn nesaf.

**Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.**

Gallwch wybod mwy am y Cynllun drwy fynd i **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy** neu trwy sganio'r Cod QR.



# TALIADAU GWLEDIG CYMRU



## Gwahoddiadau i symud i One Login GOV.UK

Mae'r ffordd rydych yn cael mynd ar RPW Ar-lein wedi newid. Rydym yn cael gwared ar wasanaeth Porth y Llywodraeth ac yn defnyddio gwasanaeth newydd One Login GOV.UK yn ei le.

Bydd y newid hwn yn gwneud y data digidol yn fwy diogel ac yn golygu y gallwn gyflwyno nodweddion newydd ar RPW Ar-lein, gan gynnwys newid y drefn ar gyfer delio â rolau a chaniatâd. Bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth ichi ar eich Cyfrif CRN ar-lein.

Rydym yn y broses o ysgrifennu at Ddefnyddwyr RPW Ar-lein yn eu gwahodd i symud i wasanaeth newydd One Login GOV.UK. Bydd y gwahoddiad hwn yn ymddangos yn eich Negeseuon Cyswllt Cwsmer. Mae'r gwahoddiadau'n cael eu hanfon mewn sypiau, felly edrychwch ar eich negeseuon yn rheolaidd i sicrhau nad ydych chi'n colli'r gwahoddiad. Bydd cymorth ar gael gan ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i'ch cynorthwyo gyda'r broses symud.

I symud i One Login GOV.UK, bydd angen ei gyfeiriad e-bost ei hun ar bawb sydd wedi'i gofrestru ar eich CRN ac a fydd angen gallu gweld eich cyfrif RPW Ar-lein.

Does dim angen i chi symud i One Login GOV.UK nes eich bod wedi cael eich gwahodd.

Rydym am weld ein holl gwsmeriaid yn defnyddio One Login GOV.UK erbyn diwedd y flwyddyn a'r bwriad yw cau gwasanaeth Porth y Llywodraeth.

Bydd Canllawiau llawn ar sut i symud ar gael ar-lein a bydd y ddolen i'r canllawiau wedi'i chynnwys yn y gwahoddiad.

## Trosglwyddo Hawliau BPS 2026

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion ar gyfer newid o'r BPS i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2026. O ganlyniad, caeodd cyfnod trosglwyddo hawliau'r BPS ar 15 Mai 2025 a bydd yn parhau ar gau nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar drefniadau trosglwyddo a lesio hawliau BPS ar gyfer blwyddyn cynllun 2026 a thu hwnt.

## Cadarnhad Data

Bydd ffurflen Cadarnhau Data y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar gael ar RPW Ar-lein rhwng 17 Gorffennaf 2025 a 31 Hydref 2025.

Bydd y ffurflen yn cynnwys mapiau a gwybodaeth wedi'u diweddaru sy'n dangos y cynefinoedd, y gorchudd coed, y safleoedd dynodedig a'r nodweddion amgylchedd hanesyddol ar eich fferm, fel y'u cedwir ar hyn o bryd yn system mapio RPW.

Mae'r gwaith mapio wedi'i greu gan ddefnyddio eich datganiadau tir, mapiau cynefinoedd a gyhoeddwyd yn flaenorol, delweddau daear wedi'u diweddaru a chyflwyniadau o broses Gadarnhau Data 2024.

Cadarnhau Data yw eich cyfle i adolygu'r mapiau a chadarnhau, diwygio, dileu neu ychwanegu gwybodaeth i ddangos y cynefinoedd, y gorchudd coed a'r coetiroedd ar eich fferm yn gywir, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n gywir cyn yr SFS sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2026.

Bydd canllawiau ar sut i lenwi eich ffurflen Cadarnhau Data ar gael ar wefan RPW.



# CYFRADDAU ISAFSWM CYFLOG AMAETHYDDOL NEWYDD AR GYFER 2025–2026 YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud diweddariadau pwysig i'r Isafswm Cyflog Amaethyddol ar gyfer 2025–2026 – gan ddod â newid ystyrlon i weithwyr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth ledled Cymru. Wedi'u hargymell gan y Panel Cynghori Amaethyddol, mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu realiti'r economi heddiw a'r angen cynyddol am weithlu gwledig medrus, sy'n cael ei dalu'n deg.

Wedi'u gweithredu drwy Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025, nod y newidiadau yw diogelu hawliau gweithwyr gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector. A chofiwch – **mae'n drosedd i beidio â thalu gweithwyr amaethyddol o leiaf yr Isafswm Cyflog Amaethyddol.**

## Beth sy'n newid?

**Cyflogau Uwch ar draws y bwrdd**
O 1 Ebrill 2025, bydd gweithwyr ar bob gradd yn gweld codiad cyflog. Er enghraifft, bydd Gweithwyr Datblygu Amaethyddol 21+ oed yn ennill o leiaf £12.21 yr awr, a bydd Rheolwyr Amaethyddol yn derbyn o leiaf £16.23 yr awr. Mae cyfraddau prentisiaethau hefyd i fyny, yn unol â safonau cenedlaethol.

**Cynyddu Lwfansau**
Mae lwfansau ar gyfer trin cŵn, dyletswyddau ar alwad, a gwaith nos wedi cynyddu 10%. Mae grantiau geni a mabwysiadu bellach yn £87.85 y plentyn.



**Diwygiadau o ran Llety a Goramser**
Gall cyflogwyr wrthbwyso costau llety ar gyfraddau wedi'u diweddaru. Bydd goramser nawr yn berthnasol dim ond ar ôl cwblhau oriau wythnosol y cytunwyd arnynt – gan gynnig hyblygrwydd heb danseilio tegwch.

**Diweddariadau o ran Hyfforddiant a Gadael**
Gall cyflogwyr adennill costau hyfforddi os yw gweithiwr yn gadael o fewn 12 mis ar ôl cwblhau hyfforddiant a ariennir gan gyflogwr. Mae absenoldeb di-dâl statudol, gan gynnwys Absenoldeb Gofalwyr, bellach yn cael ei gydnabod yn llawn.

**Tâl Gwyliau Symlach**
Mae cyfrifo tâl gwyliau bellach yn haws i weithwyr rhan o'r flwyddyn ac oriau afreolaidd, gan gyd-fynd â diweddariadau i'r Rheoliadau Amser Gwaith.

Mae gwybodaeth fanylach a chanllawiau ar gael yn **llyw.cymru/panel-cynghori-amaethyddiaeth-cymru/y-ddeddfwriaeth-ar-canllawiau.**

# CREU COETIR

## Cyngor am Ddim ar Greu Coetir

Ydych chi'n ystyried creu coetir ar eich fferm? Os felly, a ydych chi'n ymwybodol bod 'gwasanaeth cyn ymgeisio' am ddim ar gael gan CNC?

Mae'r 'gwasanaeth cyn ymgeisio' hwn wedi'i gynllunio i gynnig gwybodaeth am ba mor addas yw eich tir ar gyfer creu coetir. I gael gafael ar y cyngor am ddim neu am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **GwirioCynllunCoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**.

## Cynlluniau Creu Coetiroedd

Ar ôl i chi gael cyngor cyn ymgeisio gallwch wneud cais i'r **Cynllun Cynllunio Creu Coetir**. Mae'r Cynllun yn darparu cyllid rhwng £1,000 a £5,000 i benodi Cynllunydd Coetir Cofrestredig i gynnig cyngor a datblygu cynllun creu coetir i chi. Mae'r Cynllun ar agor ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb drwy gydol y flwyddyn. Caiff ceisiadau llwyddiannus eu dewis bob mis. Unwaith y bydd cynllun creu coetir wedi'iddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gallwch wneud cais am **Grant Creu Coetir**.

Yn ogystal, mae'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir ar gyfer plannu llai na 2 hectar. Mae sawl cyfnod ymgeisio drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r dyddiadau ar gael yn yr adran dyddiadau allweddol ac ar wefan Llywodraeth Cymru: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**. Mae'r grant hwn yn cynnig cymorth i blannu coed ar dir cymwys sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal sensitifedd isel ar y Map Cyfleoedd Coetir: **mapdata.llyw.cymru/maps/small-grants-woodland-creation/**. Nid oes angen cais ymlaen llaw na chynllun coetir wedi'i ddilysu.

Gweler ein llyfryn canllawiau am drosolwg o'n Grantiau Creu Coetiroedd: **llyw.cymru/cynlluniau-grant-creu-coetir-llyfryn**.

Bydd coed collddail brodorol sydd yn y ddaear ac sy'n cael eu rheoli erbyn 15 Mai 2025 yn cyfrannu at ofyniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i neilltuo 10% o'r fferm i gynefin. Bydd gwaith plannu coed a pherthi a gaiff ei gwblhau o 1 Ebrill 2022 yn cael ei ystyried fel cynnydd wrth weithredu eich Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.



# YMGYNGHORIAD AR DREFN O ADNABOD GWARTHEG YN ELECTRONIG YNG NHYMRU

## Dweud eich dweud ar eid gwartheg yng Nghymru

Rydyn ni'n gofyn am eich barn ar gynlluniau i gyflwyno dyfeisiau Adnabod Electronig ar gyfer Gwartheg (EID Gwartheg) yng Nghymru. Rydyn ni eisiau clywed gan ffermwyr fel chi - bydd eich adborth yn ein helpu i benderfynu sut i symud ymlaen.

Ymhlith y pwyntiau allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad yr oedd y canlynol:

- Ar gyfer pob llo sy'n cael ei eni ar ôl cyflwyno EID Gwartheg, rhaid i o leiaf un tag clust a osodir fod yn dag EID statudol.
- Nid oes bwriad ei weithredu yng Nghymru tan 2027 ar y cynharaf.
- Dylid cytuno ar amledd tagiau ar gyfer EID Gwartheg gorfodol.
- Mae modd darllen tagiau EID gwartheg yn weledol a byddant ar gael fel tag baner, botwm neu fetel.
- Bydd fformat rhifau adnabod gwartheg yn newid wrth gyflwyno EID Gwartheg.
- Bydd tagiau EID gwartheg yn WYSIWYG (Yr hyn a welwch yw'r hyn a gewch – bydd y rhif a raglennir ar y sglodyn yr un rhif wedi'i argraffu ar y tag).
- Dim cynlluniau ar hyn o bryd i aildagio'r fuches bresennol.
- Gweithio gyda chyflenwyr tagiau i gytuno ar amserlenni i sicrhau bod tagiau EID statudol ar gael.

Mae angen eich mewnbwn i helpu i lunio dyfodol adnabod gwartheg yng Nghymru. I ymateb i'r ymgynghoriad, ewch i: **llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen** neu sganiwch y cod QR cyn **14 Mis Awst 2025**.



# EIDCYMRU


## Cael y gorau allan o'ch cyfrif EID

Mae nifer o fanteision i gofrestru ar gyfer cyfrif ar-lein EIDCymru. Gallwch wneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| 1 | **Creu** symudiad |
| 2 | **Cadarnhau** symudiad – dim angen stamp |
| 3 | **Gwirio** bod pob symudiad yn gywir |
| 4 | **Cydymffurfio** – helpu i baratoi ar gyfer archwiliad |
| 5 | **Cwblhau'r** Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr. |

Ar ôl cofrestru, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein EIDCymru, gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr neu'ch cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair. Byddwch yn gweld eich dangosfwrdd lle mae llawer o swyddogaethau ar gael i chi eu defnyddio.





## Gwirio bod symudiadau yn gywir

Un fantais o gofrestru gydag EIDCymru yw gallu gwirio symudiadau eich defaid a'ch geifr.




Dewiswch 'Cofnodion Symud' ar y dangosfwrdd i weld symudiadau eich anifeiliaid. Gallwch wirio pob cofnod a gedwir ar EIDCymru gyda'r symudiadau a gedwir yn eich **Cofnod Defaid a Geifr.** Trwy ddewis symudiad unigol, gallwch weld y manylion symudiad cyflawn sy'n cynnwys y rhestr tagiau unigol. Os ydych chi'n dod o hyd i unrhyw anghysondebau, gallwch holi am y symudiad, a rhoi eich rhesymau yn y blwch testun.




## Cydymffurfio – helpu i baratoi ar gyfer archwiliad

Gellid defnyddio eich cofnodion EIDCymru fel cymorth i'ch helpu gydag archwiliad.

Gallwch ddefnyddio Cofnodion Symud a'ch cyflwyniadau Stocrestr Flynyddol i gysoni â'r manylion a gedwir yn eich Cofnod Defaid a Geifr.


I weld eich Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr, cliciwch ar 'Fy stocrestr' ar frig y dudalen.







Bydd eich tudalen 'Fy stocrestr' yn darparu dolenni y gallwch glicio arnynt i weld eich ffigurau stocrestr ar gyfer blynyddoedd blaenorol.




## Help a Chymorth

Os oes angen unrhyw help neu gymorth arnoch, cysylltwch ag EIDCymru ar 01970 636959 neu drwy e-bost: **contact@eidcymru.org**.

Mae gan EIDCymru stondin yn Sioe Frenhinol Cymru – galwch heibio a chwrdd â'r staff.

# ACHOSION O GLEFYDAU HYSBYSEDIG YN EWROP

**Clefydau hysbysadwy yn Ewrop: mesurau diogelu**

- Mae Cymru wedi cyflwyno mesurau diogelu i gyfyngu ar fewnforion masnachol a phersonol perthnasol o gynhyrchion o ystod o wledydd yr UE. Mae hyn yn rhan o ymateb eang Prydain Fawr i nifer o achosion o glefydau hysbysadwy heintus iawn, nad yw sawl un ohonynt wedi'u gweld yn yr UE ers degawdau.
- Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyfyngu ar fewnforion masnachol o nwyddau perthnasol yn dilyn yr achosion diweddar o Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) yn yr Almaen, Hwngari a Slofacia; achosion o Peste des Petits Ruminants ym Mwlgaria, Romania, Gwlad Groeg a Hwngari; a Chlwy Affricanaidd y Moch yn Rwmania, yr Almaen a'r Eidal.

**Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu da byw Cymru rhag FMD?**

- Mae cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith i amddiffyn y diwydiant ffermio a'r economi ehangach rhag y clefyd dinistriol hwn ym Mhrydain Fawr.
- Mae cyfyngiadau ar waith ar fewnforio'n fasnachol wartheg, moch, defaid a'r rhan fwyaf o anifeiliaid cnoi cil a chynhyrchion moch (fel cig ffres a chynhyrchion llaeth) o Hwngari, Slofacia ac Awstria. Yn dilyn asesiad, mae'r Deyrnas Unedig bellach wedi cydnabod bod tiriogaeth gyfan yr Almaen heb FMD a hynny heb frechu.
- Daeth gwaharddiad ar fewnforion personol o gig a chynhyrchion llaeth wedi'i ymestyn i gynnwys holl wledydd yr UE (gan gynnwys taleithiau'r UE a'r EFTA, Ynysoedd Ffaro a'r Ynys Las) i rym ar 12 Ebrill 2025.
- Mae manylion llawn yr holl gyfyngiadau cyfredol ac eithriadau penodol i'w gweld yn **gov.uk/guidance/imports-and-exports-of-animals-and-animal-products-topical-issues#peste-des-petits-ruminants-mewnforio-cyfyngiadau-undeb-ewropeaidd-undeb**.

**Sut allwch chi amddiffyn eich fferm?**

- Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob ceidwad da byw i fod yn wyliadwrus iawn am arwyddion o glefyd, dilyn arferion bioddiogelwch trylwyr a rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o glefyd ar unwaith i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.
- Mae Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi cyhoeddi cyngor ar gamau y gall ceidwaid da byw a busnesau eu cymryd i gynnal y lefelau uchaf o fioddiogelwch: **llyw.cymru/galw-am-wyliadwriaeth-yn-dilyn-achos-o-glwyr-traed-ar-genau-yn-yr-almaen**.
- Byddwch yn wyliadwrus am gynhyrchion anifeiliaid sy'n cael eu smyglo'n anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cyflwyno risg hysbys.

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am FMD yn Ewrop: **gov.uk/government/news/foot-and-mouth-disease-latest-situation**.

# DEWCH I'N GWELD NI YN Y SIOEAU




## Dewch i'n gweld mewn sioeau amaethyddol yr haf hwn.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn y Pafiliwn Llywodraeth Cymru yn ystod Sioe Frenhinol Cymru a fydd yn digwydd o ddydd Llun 21 Gorffennaf tan ddydd Iau 24 Gorffennaf. Bydd staff Coedwig Llywodraeth Cymru hefyd yn cael stondin yn ardal y Coedwigaeth yn y Sioe Frenhinol Cymru yn trafod pob peth sy'n gysylltiedig â Choed a Thimbr.

Bydd staff y Gwasanaeth Cyswllt Fferm a staff Farming Connect hefyd yn y sioeau canlynol:

| | |
|---|---|
| Sioe Sir Aberteifi | Dydd Sadwrn 2 Awst |
| Sioe Môn | Dydd Mawrth 12 a dydd Mercher 13 Awst |
| Sioe Sir Benfro | Dydd Mercher 20 a dydd Iau 21 Awst |
| Sioe Dinbych a Fflint | Dydd Iau 21 Awst |
| Sioe Sir Feirionnydd | Dydd Mercher 20 Awst |
| Sioe Brynbuga | Dydd Gwener 13 Medi |

Bydd staff wrth law i gynnig yr wybodaeth ddiweddaraf ar ystod o bynciau, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynlluniau cymorth amaethyddol, cynlluniau creu coetiroedd, Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ac EID Cymru.

Dewch draw i ddweud helo.

# RHEOLI LLIFOGYDD YN NATURIOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wneud cynnydd tuag at sicrhau fod Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) yn cael ei ystyried wrth weithredu cynllun rheoli perygl llifogydd. Gan adeiladu ar ganfyddiadau Adolygiad 2023 o Reoli Llifogydd Naturiol yng Nghymru (**llyw.cymru/adolygiad-o-rheoli-llifogydd-yn-naturiol-yng-nghymru-adroddiad-terfynol**), rydym yn parhau i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur ar draws fframweithiau polisi, cyllid a chyflawni.

Gosododd Rhaglen Beilot NFM (2020–2022) y sylfaen ar gyfer y Rhaglen Cyflymu NFM ddilynol (2023–2025). Rydym eisoes wedi gweld sut mae'r rhaglen yn annog cydweithrediad llwyddiannus rhwng Awdurdodau Rheoli Risg ac awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a chymunedau. Fodd bynnag, rydym yn deall bod rhwystrau i gyflawni o hyd, megis cymhlethdodau trwyddedu a ffrydiau cyllido ansicr.

Er mwyn cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar weithredu NFM, rydym wedi cyhoeddi dau offeryn mapio rhyngweithiol: Map Blaenoriaethu NFM (**mapdata.llyw.cymru/maps/.prioritisation-map-for-natural-flood-management/**) a Map Statws Cynllun NFM (**mapdata.llyw.cymru/maps/prioritisation-map-for-natural-flood-management/**) Mae'r dulliau hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar gyfer NFM trwy nodi dalgylchoedd posibl ac olrhain cynnydd y cynllun.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth/Cyswllt Ffermio i ddatblygu modiwl e-ddysgu NFM ar gyfer rheolwyr tir, oherwydd eu cysylltiadau agos â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nod yr adnodd hwn yw gwella dealltwriaeth o ymyriadau NFM – o argaeau sy'n gollwng i blannu glannau afonydd – a'u rôl wrth leihau perygl llifogydd tra'n darparu manteision ehangach i'r ecosystem.

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi sicrhau £2 filiwn o gyllid ar gyfer y Rhaglen NFM gyfredol 2025–2026, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i gyflawni NFM. Mae ein ffocws yn parhau i fod ar ymgorffori NFM mewn cynllunio tymor hir, gan sicrhau ei fod yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth adeiladu gwytnwch yr hinsawdd ledled Cymru.



# STRATEGAETH BWYD CYMUNEDOL: CRYFHAU SYSTEMAU BWYD LLEOL YNG NGHYMRU

Y mis Mai hwn lansiwyd y **Strategaeth Bwyd Cymunedol**. Mae hon yn fenter gynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru a gynlluniwyd i hyrwyddo a chryfhau systemau bwyd lleol a chymunedol ledled Cymru.




Yn ei hanfod, mae'r strategaeth yn amlinellu sut y bydd yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a chryfhau'r system fwyd leol a chymunedol yng Nghymru; cynyddu argaeledd bwyd lleol, iachach a chynaliadwy a chynyddu faint ohono rydym yn ei fwyta; ac ysbrydoli gwelliannau o ran lles yn ein cymunedau.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod bwyd yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd Cymru – yn sail i iechyd corfforol a meddyliol, ffyniant economaidd, a chydlyniant cymunedol.

Yr hyn sy'n gwneud y strategaeth hon yn arbennig o effeithiol yw ei dull cydweithredol. Bydd grŵp cynghori gweinidogol penodedig yn arwain y broses o'i rhoi ar waith, gan ddod ag uwch randdeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol ynghyd i fesur cynnydd. Ar lefel leol, mae'n cefnogi mentrau fel Bwyd Caerdydd, sy'n cydlynu dros 250 o aelodau gan gynnwys busnesau, sefydliadau cymunedol, ac unigolion.

Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cyd-fynd â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth o fewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ym meysydd addysg, caffael, twristiaeth, a mannau cymunedol, gan greu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer newid cadarnhaol.

Drwy gefnogi gwyliau bwyd lleol, cynlluniau tyfu cymunedol, addysg maeth a chadwyni cyflenwi lleol, mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ag anghenion bwyd uniongyrchol wrth adeiladu gwydnwch a lles cymunedol hirdymor ar gyfer Cymru iachach.



# MAE EICH FFERM YN DIBYNNU ARNOCH CHI: BYDDWCH YN DDIOGEL

## Gall damwain gyda ATV newid eich bywyd am byth

**Gall ATV fod yn hynod beryglus.** Gall damweiniau yn ymwneud â'r cerbydau hyn arwain at ganlyniadau difrifol, gan arwain yn aml at anafiadau sy'n newid bywyd neu hyd yn oed farwolaethau.

Er mwyn lleihau'r risg o ddamwweiniau gyda ATV, mae'n hanfodol eich bod yn:

- **Gwisgo offer diogelwch priodol:** Gwarchodol helpu i leihau pa mor ddifrifol yw anafiadau.
- **Cael hyfforddiant priodol:** Mae deall sut i weithredu ATV yn ddiogel yn hollbwysig.
- **Dilyn canllawiau'r gwneuthurwr:** Dylech gadw at gyfyngiadau pwysau ac oedran yr ATV.
- **Teithio yn gyfrifol:** Dylech osgoi tirwedd beryglus, cyflymder gormodol a ni ddylech fynd ar y beic o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP

Cydweithio i wneud ffermio'n ddiogel

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

## Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.





## Rydydm yma i helpu, cysylltwch a ni.

### CYMRU GYFAN

**Rita Jones** Cymraeg
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### DE-DDWYRAIN CYRMU

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### DE-ORLLEWIN

**Catrin Jones** Cymraeg
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

**Armando Morgan** Cymraeg
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

**Janet Phillips** Cymraeg
07774 950654
janet.phillips@gov.wales


### CANOLBARTH CYMRU

**Steve Meredith**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

**Eve Bridgewater**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service



OLYNIAETH
SUCCESSION

# Cymorth gyda Chynllunio Olyniaeth gan CYSWLLT FFERMIO

## Cam 1

### ADOLYGIAD OLYNIAETH

Cymryd stoc o'ch asedau a deall eich sefyllfa dreth bresennol gyda chyfreithiwr cymwys.

**Cymhwysedd:** *Pob busnes yn gymwys. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer perchnogion fferm sy'n berchen ar yr asedau. Gallai'r asedau hynny gynnwys tir, da byw, peiriannau neu asedau arallgyfeirio. Gellir adolygu ystâd hyd at 2 unigolyn.*

## Cam 2 (os oes angen)

### CYFARFOD OLYNIAETH TEULUOL WEDI'I HWYLUSO

Cyfarfodydd a hwylusir gyda phob aelod o'r teulu i ddeall dymuniadau a bwriadau pob unigolyn. Dyw hyn ddim yn cynnwys unrhyw gyngor cyfreithiol neu fusnes. Mae'n cynnwys paratoi cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod.

## Cam 2

### CYNLLUN OLYNIAETH

Datblygu cynllun olyniaeth cynhwysfawr fel rhan o Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio, gyda chyllid o hyd at £1400* ar gael.

**Cymhwysedd:**
**Mae'r cyllid sydd ar gael yn amodol ar ddyraniad 'Gwasanaeth Cynghori' pob busnes.*

## Cam 3

### GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyngor / gwasanaethau cyfreithiol i weithredu'r cynllun olyniaeth. Mae hyn yn gallu cynnwys drafftio cytundebau partneriaeth newydd, ewyllysiau, atwrneiaeth a throsglwyddo asedau.

Cyfraniad o hyd at £1000 fesul busnes. Mae cyfanswm cost y gwaith yn gallu bod yn fwy na hyn a rhaid cytuno ar unrhyw gyfraniad preifat cyn i'r gwaith ddechrau.

***Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol, neu ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth.***

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**03456 000 813**
*Rydyn ni'n croesawu galwadau'n Gymraeg*
**llyw.cymru/cyswlltffermio**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO


# YMWELD ag Ein Ffermydd – Medi 2025

Ymunwch â Cyswllt Ffermio am gyfres unigryw o deithiau fferm ar draws Rhwydwaith Ein Ffermydd ym mis Medi.

## CADWCH Y DYDDIAD

## 02-19 Medi 2025

- Llaeth
- Cig Coch
- Cymysg
- Garddwriaeth
- Âr
- Coetir




Am restr lawn o holl ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan.


Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**

Funded by **Welsh Government**


FARMING connect cyswllt FFERMIO

# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL CYMRU**
www.farmwell.cymru

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
07860 048799 (testun yn unig)

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
ffarmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS**
116 123
jo@samaritans.org